



Papur Pawb

Pris: 50c

Chwefror 2016

Rhif 416



Gweithgareddau Llesol, Bingo, Ysgol Tal-y-bont – tud 8

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4,5,8 a 9

Ysgolion

tud 7

Y Gair Olaf

tud 12

Chwaraeon

Diogelu'r Gymuned

Rydym yn byw trwy gyfnod o doriadau llym drwyddi draw o ran ariannu cyhoeddus a mwy o bwysau nag erioed i gydweithio a sefydlu partneriaethau. Braf felly mewn hinsawdd o'r fath ydy cael adrodd ar ail sefydlu partneriaeth a fu'n enghraifft lwyddiannus o gydweithio ers lles y gymuned yn y gorffennol.

Fel y gwyddom, mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwasanaethu a diogelu ardal eang iawn, yn wir, dros hanner wyneb Cymru. Rhan helaeth ohono yn wledig iawn wrth gwrs, ac o'r herwydd nid yw'n syndod efallai gweld fod tîm plismona ardal wledig Aberystwyth yn mynd ati ar hyn o bryd i ail sefydlu cynllun gwarchod ffermydd yn ardal Gogledd Ceredigion. Noda Heddlu Dyfed-Powys mae ei

gweledigaeth yw 'Diogelu Cymunedau' trwy gymryd agwedd gymunedol tuag at blismona. Teilwra'r gwasanaeth mewn gwirionedd i ymateb yn uniongyrchol i anghenion lleol.

Mae'r cynllun gwarchod ffermydd yn enghraifft berffaith o geisio gweithredu'r weledigaeth mewn ffordd ymarferol ac amcanion cyffredinol y cynllun yw:

- i leihau'r cyfleoedd i gyflawni troseddau,
- i gryfhau'r ysbryd gymunedol a chael pawb i gydweithio er mwyn diogelu eu heiddo,
- i wella cyswllt rhwng y gymuned amaethyddol a'r heddlu
- i roi gwybod am ddigwyddiadau amheus pan fyddant yn digwydd.

Partneriaeth ydy'r cynllun gwarchod ffermydd rhwng y gymuned ffermio a'r heddlu ac fe weithiodd hynny'n dda yn y gorffennol. Mae'n hyrwyddo gwyliadwraeth a chyswllt, nid yn unig rhwng y ffermwyr ond â'r heddlu hefyd. Ethos sylfaenol y cynllun yw defnyddio'r bobl iawn er mwyn gwneud i bethau ddigwydd ac annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau neu weithgareddau sy'n ymddangos yn amheus neu'n anarferol.

Mae'n siwr y byddai rhai yn cwestiynu pa droseddau sy'n digwydd ym mherffedion cefn gwlad a fyddai'n gwarantu ail sefydlu cynllun o'r fath. Ond yn wir, ceir adroddiadau cyson am droseddau amrywiol yn

cynnwys dwyn defaid, beiciau modur pedair olwyn, trelars, tractorau, tanwydd, ac offer fel llifiau cadwyn ac ati.

Os hoffech mwy o fanylion ynglyn â'r cynllun cofiwch gysylltu gyda'ch Cwnstabl Gwledig lleol neu eich Swyddogion Cefnogi Cymunedol yn Ngorsaf Heddlu Aberystwyth ar 101 neu danfonwch Ebost at:

PC 980 Manon CURLEY ar manon.curley@dyfed-powys.pnn.police.uk
SCC 8067 David GOFFIN ar david.goffin@dyfed-powys.pnn.police.uk
SCC 8072 Chris TIPPER ar chris.tipper@dyfed-powys.pnn.police.uk



"Hyd yn oed o fan hyn, mae'n anodd dweud os yw'r twlch rhwng Prydain ac Ewrop yn mynd yn fwy neu llai..."

Ysgol Llangynfelyn – Ffarwelio gyda Miss Cerys tud 5



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Eglwysfach/Ffwrnais: Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 (01654) 781260 (01654) 781324
Cadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyron

Llety'r Bugail Tal-y-bont

Ysgwn i faint o ddarllenwyr Papur Pawb sydd wedi sylwi ar y wal gerrig sydd rhwng y ffordd fawr a choed Pantglas, ar y ffordd rhwng Caffi Clettwr a phen lôn Cefngweiriog.

Mae wedi bod yn ddigrlwch mawr fi ar hyd fy oes.

Pam y mae wedi cael ei chodi fel hyn mor gelfydd â'r mynediadau yn hollol sgwâr? 'Rwyf wedi holi'r hen bobl, ond 'doedd neb a syniad beth oedd ei bwrpas.

Os oes rhywun yn gwybod beth oedd ei bwrpas, byddwn yn ddiolchgar iawn i gael gwybod.


Gwilym Jenkins

01970 832 751

Clwb Pysgota Tal-y-bont a'r Cylch

Oes gan unrhywun ddiddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb am y Clwb?

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Eric Roberts
01970 832 336



IRON M.A.M.
7.30, nos Wener, 26 Chwefror
Perfformiad theatrig gafaelgar sy'n archwilio'r cyswllt rhwng adar angau, rhyfela o bell a gemau fideo.
Tocynnau: £4.

CROSSLIGHT
7.30, nos Fercher, 2 Mawrth
Drama ar gyfer y Grawys gan Riding Lights. Cyfuniad arbennig o theatr ac addoliad sy'n canolbwyntio ar hanes Simon Pedr. Tocynnau: £6.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Dyddiadur

CHWEFROR

- 14 **Bethel** 10 Gweinidog
Rehoboth 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaidd
Cerdded Cletwr 1 Helfa
Drysor (Jenny Dingle)
- 15 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** (Helen a Ruth)
- 16 **Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn** Cyfarfod
Blynnyddol 7 Llanfach
- 18 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont** 'Mordaith i Norwy' (Dr Stephen Evans)
Eglwys Dewi Sant 7
Gwasanaeth Nos
- 21 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 10 Terry Edwards
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaidd
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyrrol Weddi
- 23 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 'Blodau ar feddau: hen arfer Cymreig' (Michael Freeman) 7.30 Llan Fach
- 25 **Siop Cynfelyn** Noson ffilm Gymraeg 'Patagonia'
- 28 **Bethel** 10 Gweinidog (C)
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Teuluol

MAWRTH

- 1 **Sefydliad y Merched Taliesin**
Cawl i ddathlu Gŵyl Dewi a sgwrs gan Rowland Davies
Eglwys Dewi Sant 10
Gwasanaeth Gŵyl Dewi Sant
- 3 **Eglwys Dewi Sant** 7
Gwasanaeth Nos
- 6 **Bethel** 2 Uno yn Nasareth
Nasareth 2 Bugail (C)
Rehoboth 5 Elwyn Pryse
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol
Weddi
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaidd

Nos Wener 18fed o Fawrth Aber Opera

yn cyflwyno noson o glasuron byd yr opera yn Neuadd Tal-y-bont

Elw tuag at gynllun sganio'r galon, Calonau Cymru, Elusen y Galon dros Gymru.

Rhagor o fanylion yn rhifyn mis Mawrth o Papur Pawb Trefnir gan Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont.

- 8 **Cymdeithas y Chwirydd Rehoboth** Adloniant Gŵyl Dewi (Marianne Jones Powell a Glenys Jenkins)
- 18 **Noson Stand-up Cymraeg** yng nghwmni Beth Angell yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont.
Mynediad £7

Digwyddiadau'r Ystafell Haearn, Eglwys-fach:

- 13 **Chwefror, 7.30: Noson Nicaraguaidd** yn yr Ystafell Haearn, Eglwys-fach, gyda cherddoriaeth fyw, £5 wrth y drws, dewch a'ch diodydd.
- 20 **Chwefror, 7.00: Cwis** yn yr Ystafell Haearn, Eglwys-fach. Cysyllter efo Roy ar 01654 781343 neu Alison ar 01654 781322 i archebu bwrdd.
- 28 **Chwefror, 3.00: Cymanfa ganu** yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach gyda paned i ddilyn.
Ar gyfer archebu yr Ystafell Haearn ffoniwch Alison 01654 781 322.

TRE'R DDÔL

Cofiwch bod modd anfon newyddion ar gyfer Papur Pawb drwy ei adael mewn blwch sydd wedi'i osod yn Siop Cynfelyn. Mae yno hefyd lyfr lle y gall unrhyw un sy'n dymuno ysgrifennu pwt o newyddion a'i roi yn y blwch. Bydd golygyddion y mis yn casglu'r newyddion o'r blwch. Felly, wrth i chi ymweld â'r siop/caffi, cofiwch fanteisio ar y cyfle i nodi unrhyw eitem o newyddion a fydd o ddiddordeb i'n darllenwyr.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin, gyda Ceri yn dylunio.
Golygyddion mis Mawrth fydd Phil a Megan (gwynionydd@btinternet.com), gyda Sion yn dylunio.
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 4 Mawrth, a bydd y papur ar werth ar 11 Mawrth.

SIOP GYMRAEG EICONIG YNG NGHANOL TREF ABERYSTWYTH

SIOP Y PETHE

LLYFRAU . CERDDORIAETH . CARDIAU
CREFFTAU . ANRHEGION

DAN REOLAETH NEWYDD!

Gwylwch mas am nifer o ddatblygiadau cyffrous yn fuan!

Dewch a'r hysbyseb gyda chi i hawlio'r gostyngiad

CYNNIG AGORIADOL!

Mae Aled a Dafydd yn falch o gynnig 10% o ostyngiad ar BOPETH yn y siop i holl ddarllenwyr **Papur Pawb** yn ystod Chwefror a Mawrth 2016!

01970 617 120



CEWCH GROESO CYMREIG BOB AMSER YN SIOP Y PETHE!

Brysiwch Wella

Gwellhad buan i Aeron Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont, yn dilyn triniaeth yn ysbyty Morriston yn ddiweddar, hefyd i Karen Evans, Nantlain, yn dilyn llawdriniaeth mewn ysbyty yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlad

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Anne Watkin, Brynawel, Tre Taliesin, yn 97 oed ar 13 Ionawr ac estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Owen a Gwenno, Ann a Brad a gweddill y teulu. Cymdages hoff gan bawb oedd Mrs Watkin a byddwn yn gweld eisau ei straeon difyr am yr oes a fu.

Rydym hefyd yn cydymdeimlo â Rob Gwillim a Cindy, Roman House, Taliesin, tad Rob (sy'n byw ym Machynlleth) a gweddill y teulu ar golli mam Rob ar 26 Ionawr.

Symud Tŷ

Trist iawn oedd gweld Nia a Siwan Williams yn gadael Maes-y-Deri adeg y Nadolig, â phob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd yn Aberaeron.

Pob dymuniad da hefyd i Siân Wyn Jones sydd wedi symud i Ffridd-y-Deri, Tal-y-bont.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i Jen Davies, Erw-Lon, Tal-y-bont.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd Hapus iawn a phob dymuniad da i Mrs Myfanwy Rowlands, Hafod Lasau, Taliesin, a ddathlodd benblwydd arbennig ar 6 Chwefror.

Diolch

Hoffai Martin a Siân, Is-y-coed, Taliesin ddiolch yn enfawr i Chris, Tom a Cynrig am eu cymorth arwrol wrth symud eu Rayburn darfodedig allan o'r tŷ yn ddiweddar!

18 oed

Llongyfarchiadau i Gwion Richards, Clap y Cripiau, Tre'r-ddôl ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

**Cymdeithas Sioe Tal-y-bont
Cynhelir
Cyfarfod Blynyddol**

Nos Lun, 7 Mawrth 2016
am 8.00 yr hwyr
Yn Neuadd Goffa Tal-y-bont

Croeso cynnes i bawb

Pobl a Phethe



Penodi Jen o yn Llysgenhad

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi penodi llysgenhadon er mwyn ceisio annog mwy o ddarpar fyfyrwyr i astudio trwy'r Gymraeg ar lefel addysg uwch. Ymysg yr 14 llysgennad sydd wedi'u lleoli mewn saith prifysgol ar hyd a lled Cymru mae Jen Lewis, Yr Hen Siop Sgidie, Tal-y-bont.

Mae Jen yn un o dair sydd wedi dechrau ar eu gwaith ym Mhrifysgol Abertawe ac yn gyfrifol am gwblhau gwahanol dasgau drwy'r flwyddyn. Eu prif rôl fydd ceisio dwyn perswâd ar ddisgyblion ysgol i ddilyn rhan o'u hastudiaethau prifysgol trwy'r Gymraeg a chyflwyno'r manteision a ddaw yn sgil hynny.

Bydd Jen yn cynrychioli'r Coleg Cymraeg mewn ymweliadau ysgolion, ffeiriau UCAS ac Eisteddfodau yn ogystal ag yn cofnodi ei phrofiadau mewn blog newydd sbon. Mae 'Llais y Llysgennad' yn rhoi darlun o fywyd myfyriwr cyfrwng Cymraeg ar ffurf lluniau, fideos a llawer mwy.

Bydd yn rhaid iddi fod yn gyfarwydd â Chynllun Ysgoloriaethau Israddedig y Coleg Cymraeg a sôn am y profiad o dderbyn arian fel yr eglura Jen sy'n astudio Daeryddiaeth:

"Wrth gyrraedd y brifysgol, mae arian yn diflannu'n gyflym! Felly mae'r ysgoloriaeth yn gymorth mawr ac rwy'n barod i arwain eraill trwy'r broses a'u hannog i wneud cais."

Pob lwc i ti Jen gyda'r gwaith pwysig yma.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mark a Vicky Joseph, Stryd-y-Capel, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu mab Elis James, brawd bach i Ioan a Carys.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Josie Smith, Dyfi Villa, Taliesin a syrthiodd a brifo ei ffêr yn ddiweddar.

Beirdd buddugol

Llongyfarchiadau i dim Tal-y-bont ar ennill yn rownd gyntaf tymor 2016 o Dalwrn y Beirdd a ddarlledwyd ar y radio yn ddiweddar. Curwyd Dyffryn Teifi mewn gornest agos a bydd y tîm yn awr y cystadlu yn yr ailrownd yn ystod yr wythnosau nesaf. Cofiwch wrando. Aelodau'r tîm yw Phil Davies, Phil Thomas, Gwenallt Llwyd Ifan ac Annwen Pierce.

Genedigaeth ac anrhydedd

Ganed wyres gyntaf Mick a Jenny Fothergill, Minafon, Tal-y-bont ar 27 Ionawr, sef Ariana Ffion Bryan, merch i Jo a Nick, sy'n byw yn Lerpwl. Llongyfarchiadau i'r teulu cyfan.

Mae Ariana Ffion hefyd yn or-wyres i Derek Dowsett, Y Lanfa, Aberystwyth, tad Jenny ac hefyd David Dowsett, Isycoed, Tal-y-bont. Yn ddiweddar cafodd Derek, sy'n 92 mlwydd oed, fedal y *Chevalier Légion d'Honneur* gan lywodraeth Ffrainc am ei gyfraniad at 'D-day' ym Mehefin 1944. Roedd ef yn gomando morwrol yn ystod y glaniad ar 'Sword beach'. Llongyfarchiadau iddo ar yr anrhydedd hwn.

Dymuniadau gorau

Pob hwyl i Sion Southgate sydd newydd symyd bant i ddechrau ei hyfforddiant gyda'r Llynges Brenhinol. Bydd yn dechrau ei gwr yn Plymouth ac yn gwasanaethu ar HMS Raleigh.

21 oed

Bu dathlu mawr ym Maesnant, Tal-y-bont ar 29 Ionawr wrth i Declan O'Donnell gyrraedd ei 21 oed. Dymuniadau gorau i ti ac hefyd i Gruffydd Jones, Pistyll y Llan, Tal-y-bont a Gwion Evans, Tan y Llan, Llangynfelyn.

Genedigaeth

Cyrhaeddodd bachgen bach, Morgan Hedd Lewis i Minffordd, Tal-y-bont ar 3 Chwefror, mab i Hywel ac Alaw Griffiths a brawd i Lleucu. Dymunwn bob hapusrwydd i chi fel teulu.

Dathlu 40

Dymuniadau gorau i Gerwyn Jones, Tŷ Ni, Dôl-y-Pistyll, sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.



Priodas



Llongyfarchiadau i Siôn a Catrin Saunders-Jones, yBlac, Tal-y-bont ar eu priodas ym mis Hydref. Priodwyd y ddau yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, a chafwyd y wledd briodas yn Penrhwygerwyn, Tre'r-ddôl.



Ysgol Llangynfelyn



Darlith 'Gwyddoniaeth ac Egni'



Cyfri Mawr Adar yr Ysgol



Ymweliad â'r Lolfa

Sefydliad y Merched



Cynhaliwyd gweithdy gan ganghennau Eglwys-fach, Taliesin a Machynlleth o Sefydliad y Merched yn yr Ystafell Haearn, Eglwys-fach yn ddiweddar. Fel rhan o weithgareddau'r mudiad ar newid hinsawdd, bu'r aelodau yn creu calonnau gwyrdd fel symbol o 'Gariad at y Byd' i'w gwisgo a'u rhannu ar ddiwrnod San Ffolant.

Ysgol Llangynfelyn

Ffarwelio

Ffarweliwyd â dwy aelod o staff ym mis Ionawr. Mae Miss Catrin Hughes wedi dechrau swydd ddysgu yn Lesotho gyda'r elusen Dolen Cymru/Lesotho mewn ysgol yn Thaba Tseka. Bydd hi'n dychwelyd i Gymru ym mis Mehefin. Mae ein cynorthwydd dosbarth, Mrs Cerys Gower-Jenkins wedi dechrau swydd newydd yn Ysgol Comins Coch. Dymunwn bob lwc i'r ddwy yn eu swyddi newydd.

Croeso

Croeso cynnes iawn i'n staff newydd. Mae Mrs Leah Davies wedi dechrau gyda ni fel athrawes ddosbarth yn Nosbarth Cyfnod Allweddol 2 dros weddill cyfnod mamolaeth Mrs Siwan Evans ac mae Mr John Lynch wedi dechrau fel cynorthwydd dosbarth yn yr ysgol. Gobeithiwn bydd y ddau yn hapus iawn gyda ni yma yn Ysgol Llangynfelyn.

Gala Nofio

Cafwyd llwyddiant mewn dwy gala nofio yn ddiweddar. Aeth 8 o'r plant i gystadlu yng Ngala Nofio i Ysgolion Bach Ardal Aberystwyth ac aeth 6 ohonynt ymlaen i'r gala derfynol i gystadlu yn erbyn plant o ysgolion mawr Ardal Aberystwyth. Llongyfarchiadau i bob un o'r nofwyr.

Darlith 'Gwyddoniaeth ac Egni'

Aeth Dosbarth Cyfnod Allweddol 2 i'r Brifysgol yn Aberystwyth i gymryd rhan mewn darlith am 'Wyddoniaeth ac Egni'. Roedd y ddarlith yn gyffrous iawn gyda phob math o arbrofion diddorol yn cael eu dangos. Cafodd rhai o'r plant gyfle i gymryd rhan yn yr arbrofion o flaen y gynulleidfa. Roedd yn gyfle gwych i'r plant gael blas ar Wyddoniaeth ac efallai rhoi hwb iddynt fod yn wyddonwyr yn y dyfodol.

Cyfri Mawr Adar yr Ysgol

Eleni eto, bu plant y Cyfnod Sylfaen yn cymryd rhan mewn ymgyrch flynyddol yr RSPB sef Cyfri Mawr Adar yr Ysgol. Bu'r plant yn brys iawn yn gwneud cacennau bwyd adar cyn penderfynu ar y manau gorau i'w rhoi ar dir yr ysgol. Aethpwyd ati wedyn i wyllo'r adar yn bwyta'r bwyd a chofnodi faint o adar a welwyd. Gwelodd y plant lawer o adar y to ac un Robin Goch. Bydd y plant yn llwytho'r canlyniadau ar safle gwe'r RSPB i greu darlun cenedlaethol o nifer yr adar gwyllt.

Ymweliad â'r Lofa

Fel rhan o'u gwaith ar lyfrau Gwlad y Rwla, aeth plant y Cyfnod Sylfaen i'r Lofa i weld sut mae'r llyfrau'n cael eu hargraffu. Roedd hi'n ddiddorol iawn gweld y peiriannau mawr a'r lliwiau gwahanol. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn yr ymweliad. Diolchwn i staff y Lofa am eu hamser a'u caredigrwydd.

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirtunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Clwb Gwawr

Ar gyfer cyfarfod Mis Ionawr, cafodd aelodau'r Clwb noson Cymorth Cyntaf yng nghwmni Mrs Jane Leggett. Cafwyd gwybodaeth ddefnyddiol iawn gan Jane am sut i roi cymorth cyntaf mewn ffyrdd ymarferol iawn. Dysgwyd sut i drin amryw o anafiadau a all ddigwydd yn y cartref gan ddefnyddio deunyddiau wrth-law. Soniodd Jane am bwysigrwydd y peiriannau adfywio calonnau (defibrillator) sydd i'w cael yn yr ardal. Dangosodd Jane pa mor syml ydynt i'w defnyddio a gall unrhyw un eu defnyddio yn hawdd iawn. Pwysleisiodd y gall unrhyw un ddefnyddio'r peiriannau mewn argyfwng. Mae'r peiriannau ar wal Tŷ Twt ger Maes-y-deri, ar wal y Neuadd Goffa, ar wal y Llew Gwyn ac ar wal Siop Cynfelyn yn Nhre'r-ddôl.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Nos Lun, Ionawr 18ed daeth Alun Elidir i'n diddanu a chawsom bantomeim o noson o'r dechrau i'r diwedd.

Medi oedd yn cyflwyno'r gŵr gwadd, a soniodd ychydig am ei offennol gan ein hatgoffa o'i waith ar y rhaglen Ffermio ar y teledu. Mae erbyn hyn yn ffermio Cae Coch, fferm fynyddig ei deulu gyda'i ddefaid ei wartheg duon a'i gŵn gan deithio yn ôl a blaen rhwng Dolgellau a Thal-y-bont.

Cyn y cyfnod cymharol sefydlog hwn mae'n amlwg iddo gael anturiaethau di ben draw yn y byd actio gan berfformio ar deledu ac mewn theatrau a ddiddanu cymdeithasau lu ar draws y wlad. Mawr oedd ein baint o gael ei gwmi yn Nhal-y-bont. Aeth â ni o'r lledd i'r llon a thu hwnt. Y "tu hwnt" oedd dangos sut roedd ef a Gwyn Elfyn wedi cael gornest baffio ar lwyfan gyda Dewi Pws yn dyfarnu, act a olygai brancio ar y bwrdd ac o dan y bwrdd gan ddefnyddio holl ofod yr ystafell i lwyrt bortreadu'r darlun. Eto yr oedd yr un mor gartrefol yn adrodd detholiad o gyfieithiad Cymraeg un o areithiau Hamlet allan o'i bortffolio Shakespearaidd.

Diolch iddo am beidio mynd a'i dalent i'r America fel y bu'n fwrriad ganddo ar un adeg. Yr oedd ei bortread o rai o gymeriadau'r cyfandir mawr hwnnw yn ysgubol. Diolch iddo am ddod i ddangos i'w bentref lleol beth yn wir yw noson o adloniant. Methodd y person oedd i fod i ddiolch iddo gyflwyno'i haraith gan gymaint y cyffro a'r rhialtwch. Diolch Alun.



GLANYRAFON

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Rhodfa'r Parc



Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Y LLEW GWYN

TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Teyrngedau

Gwen Ffrancon Hughes

Ganed y diweddar Gwen Ffrancon Hughes, Coetmor, Tal-y-bont ar 11 Mehefin 1933 yn ysbyty Chwarel y Penrhyn, Bethesda ble'r oedd ei thad, Dr Emyr James Jones yn feddyg. Hyd heddiw mae'r parch tuag at Dr Emyr yn parhau'n yr ardal. Wedi genedigaeth dwy chwaer i Gwen, sef Mair a Nan, symudodd y teulu i Benrhyndeudraeth ac yna i Gaernarfon, drws nesa, fel roedd yn digwydd, i fachgen o'r enw Gareth Hughes! Aeth Gwen a Gareth i'r un ysgol Ramadeg a thyfodd eu cyfeillgarwch.



Wedi gorffen yn yr ysgol teithiodd Gwen i Dde Affrica ac yna i ysgol breswyl yn y Swistir cyn dilyn cwrs busnes yn Glasgow. Wedi cwblhau ei chwrs yn llwyddiannus derbyniodd swydd yn ysgol Sant Nicholas yn Surrey, ond roedd dinas Lerpwl, ac yn arbennig darpar feddyg ifanc yn ei denu yno! Newidiodd cyfeiriad ei gyrfa gan fynd i astudio ym maes gwaith cymdeithasol.

Priodwyd Gwen a Gareth ym 1957 yng nghapel Seilo Caernarfon a dyna ddechrau eu taith briodasol a ddaeth a llawer o hapusrwydd a dedwyddwch iddynt. Ganed eu mab cyntaf Harry yn yr Almaen yn 1959 ac wedi dychwelyd i Gymru ganed Dafydd a Siân. Oherwydd galwedigaeth Gareth, symudodd y teulu sawl gwaith ond yn 1969 daethant yn ôl i Gymru ac i Aberystwyth, gyda genedigaeth eu merch Gwenno yn goron ar y cyfan. Yn 1971 ymgartrefon nhw yn Coetmor ble y cafodd Gwen ddatblygu ei doniau artistig wrth greu'r ardd a ddaeth â chymaint o bleser nid yn unig iddi hi a'r teulu ond i eraill a fu'n ddigon ffodus i fynychu'r diwrnodiau agored niferus a drefnodd er budd elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Roedd Gwen yn weithgar yn ei chymuned gan ddangos consym dros eraill a chredai'n gryf yn nysgeidiaeth Iesu Grist. Bu'n un o wirfoddolwyr Pryd ar Glyd am nifer fawr o flynyddoedd, hefyd Henoed Cymru, ac yn ddiweddar hi oedd Llywydd Clwb Strôc Aberystwyth yn dilyn marwolaeth Gareth. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r plant Harry, Dafydd, Siân a Gwenno a'u teuluoedd.

Mrs Anne Watkin

Yn 97 blwydd oed, hunodd Mrs Anne Watkin, Brynawel, Taliesin, yn dawel ar ddydd Mercher, 13 Ionawr. Fe'i ganed hi yn Brynawel ar 25 Ionawr 1918, yn ail ferch i Richard a Mary Ellen Evans. Ei chwaer hyn oedd Jennie (Mrs. G. C. Jones Tan'rallt gynt) a'i brawd iau oedd Defi (David Morgan Evans). Hanai teulu Richard Evans o'r Goetre, Llangynfelyn a'i mam o deulu Morgan, Felin Penpompren a Felinfach, Tal-y-bont.



Yr oedd gan Anne bob amser ddiddordeb mawr yn ei pherthnasau a'i theulu estynedig. Dioddefodd ergyd drom yn Ionawr 1928 pan fu farw ei mam. Yn ferch alluog, enillodd Anne le yn Ysgol Ardwyn ond bu rhaid iddi roi gorau i'r ysgol i ofalu am Defi a'i thad. Hoffai ddarllen yn eang, a chafodd swydd gyfrifol yn Adran Amaeth y Brifysgol. Hoffai'n fawr chwarae tenis yn y cwrter ger y Llan Fach, ac yno cyfarfu â Llew Watkin. Priodasant yn 1944, ac ymhen amser ganwyd iddynt eu plant, Owen ac Ann. Ymgartrefodd y teulu yng Ngwlad yr Haf, lle roedd Llew Watkin yn athro.

Yn 1954, symudasant i Gaerdydd. Cafodd Anne flas mawr ar fywyd y ddinas; yr oedd Capel Heol y Crwys a'i gymdeithasau yn bwysig iddi. Bu'n gweithio mewn swyddfa'r AA ac wedyn yn swyddfa'r Blaid, a gwnaeth lawer o gyfeillion ymysg rhieni Ysgol Bryntaf. Yn 1976, daeth Anne a Llew yn ôl i Brynawel. Ymunodd yn frwd â gweithgareddau'r pentref - y W.I. a Merched y Wawr, Capel Rehoboth a dosbarthiadau nos, ynghyd â dal swydd yn Llyfrgell Hugh Owen. Bu Llew farw yn 1994. Wrth heneiddio bodlonodd hi dderbyn cymorth cartref, ond wedyn bu rhaid iddi symud i Gartref Tregerddan, lle cafodd ofal heb ei ail.

Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad ar yr achlysur trist hwn, a hefyd i bawb a ofalodd amdani yn ei chartref, yn yr Ysbyty ac yng Nghartref Tregerddan.

O.W.

Y Ffarmwr Bach a'r Celwydd Mawr

Cafwyd gwledd i'r teulu cyfan yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar nos Sadwrn olaf mis Ionawr, gyda'r panto 'Y Ffarmwr Bach a'r Celwydd Mawr'. Daeth tyrfa dda iawn at ei gilydd i fwynhau'r cynhyrchiad oedd yn ymdrech ar y cyd rhwng Cwmni Garnfach a Theatr Gydweithredol Troedryhiw.

Roedd rhywun yn gwybod o fod wedi mwynhau cynhyrchiadau blaenorol y byddem yn siwr o gael adloniant gwreiddiol a chwbl Gymreig. Trysor y ddau gwmni heb os ydy'r actorion amryddawn ac roedd cyfrwng y Panto yn gyfle gwyh i weld eu doniau amrywiol ar waith. Roedd yma gymeriadau arbennig gan bawb a byddwn yn cofio'n hir am Wil Cwm Canol, Dwrgi ap Dwrgi a Lavender y Fwch. Y pethau bach sy'n gwneud cynhyrchiad, fel gweld rhes o fuchod panto yn cnoi cul yn braf yng nghanol cân! Rhaid canmol y canu arbennig a'r gallu i gynnal tempo cyflym ac egniol trwy'r cynhyrchiad.

Adloniant pur ydy panto wrth reswm ond yng ngwir draddodiad y theatr gymunedol, cafwyd aml i sylw deifol am sefylla fregus cefn gwlad Ceredigion heddiw. Yng nghanol y chwerthin hwyliog cafwyd cyfle o ddifrif i feddwl am y bygythiadau tawel sy'n llechu yn y cysgodion.

Gwnaed defnydd o'r Neuadd gyfan ond oherwydd fod y cwmni'n perfformio ar lawr y Neuadd yn hytrach na'r llwyfan, roedd y rhai ohonom oedd yn eistedd yn y rhesi cefn yn colli rhai pethau weithiau, yn arbennig pan fyddai defnydd mawr o hiwmor corfforol wrth symud y stori yn ei blaen.

Diolch o galon i'r cwmni am noson o adloniant gwerth chweil. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld y cynhyrchiad nesaf.

Clwb Nos Wener

'Sipsi Gallois', pedwarawd o offerynwyr gwyh o Abertawe oedd gwstai cyntaf 2016 Clwb Nos Wener yn y Llew Gwyn ar 29 Ionawr. Roedd y grŵp yn cynnwys 3 gitarydd ac 1 ffdllwr gyda Neil Rosser yn canu bob hyn a hyn. Cafwyd amrywiaeth o gerddoriaeth hynod o fywiog ac addasiadau o ganeuon gwerin adnabyddus a chafodd y gynulleidfa hefyd gyfle i ymuno i mewn unwaith neu ddwy!

Roedd yn anodd aros yn ein seddau i wrando'n unig gan fod curiad y gerddoriaeth yn gofyn am symudiadau ond oherwydd diffyg gofod nid oedd hyn yn bosibl - trueni!

Dechrau ardderchog i raglen 2016 heb os nac oni bai.

Cymdeithas y Chworiydd

Croesawyd yr aelodau i festri capel Rehoboth ar brynawn Mawrth, 12 Ionawr, a threuliwyd orig ddiffr yn edrych ar ffilm o'r diweddar J.R. Jones pan fu'n annerch aelodau o Ferched y Wawr yn ôl yn 1996. Ann Jenkins, Tal-y-bont a recordiodd y noson bryd hynny, a difyr oedd clywed atgofion J.R. am ei ddyddiau cynnar yn Nhaliesin cyn i'r teulu symud i Werndeg, a hefyd clywed ei ddawn o ddynwared lleisiau rhai o gymeriadau'r ardal yn yr oes a fu. Roedd pawb wedi mwynhau'r atgofion ar y ffilm yn fawr iawn, a diolchwyd yn gynnes i Ann. Mwynhawyd paned o de wedi ei baratoi gan Carys Briddon ac Ann Humphreys.



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Teyrnged

Gareth Teifi Evans

Collodd yr ardal hon un o'i meibion hynaf a chymwynasgar Ddydd Mawrth Rhagfyr 29ain 2015, pan hunodd Gareth Teifi Evans, Swm-y-ffrwd, Bont-goch yn 88 mlwydd oed. Ganwyd ef yn un o bedwar o blant i Richard a Margretta Evans, Llawrcwmbach, ger troed Craig y Pistyll. Cerddodd ddwy filltir bob bore i gael ei addysg yn ysgol Elerch, Bont-goch, ac yna bu am ychydig yn ysgol Ardwyn. Ar ôl bod yno am gyfnod aeth i wasanaethu ar wahanol ffermydd y fro. Pan ymddeolodd ddiwedd yr wythdegau, roedd wedi cyrraedd i fod yn brif swyddog da byw dan y Weinyddiaeth Amaeth dros Ogledd Cymru. Mae Cymdeithas Gwartheg Duon a Chymdeithas Defaid Mynydd y pum sir, yn ddyledus iawn i Gareth am ofalu bod safon yr anifeiliaid oedd yn mynd i'r seli ddim yn disgyn.

Ar ôl ei ymddeoliad, gwelsom ni yn ardal Papur Pawb mor barod oedd Gareth i gynorthwyo'r gymdeithas leol, a chydio'n y pen trymaf pob tro, trwy ymgymryd â ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion am bum mlynedd ar ugain, Sioe Tal-y-bont a Gogledd Ceredigion am naw mlynedd a Cymdeithas y Mart, Tal-y-bont am gyfnod ar y diwedd cyn ei chau. Mae ein dyled i gyd yn fawr iddo am ei arweiniad cadarn a thrwyadl bob amser, mewn adeg pan oedd hi yn anodd cael neb i lenwi'r swyddi yma.

Mab y wlad oedd Gareth a'u ddiddordebau i gyd yng ngweithredoedd cefn gwlad. Hoffai'n fawr i wneud ei ran pan fyddai'r cwn hela yn yr ardal, cyn i'r gwaharddiad ddod. Yr oedd yn arddwr o fri, mae pwyllgor y Neuadd Goffa yn ddyledus iawn iddo am ei roddion hael o'r ardd i'r ffair bob blwyddyn. Roedd yn gneifiwr da yn yr hen ddull, 'run fath a'i dad a'i frodyr, bu'n sylwebu yn y sioe fawr yn Llanellwedd am flynyddoedd ar y gystadleuaeth cneifio a gwella. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn gwneud ffyn i'r diwedd. Bu am gyfnod yn niwedd ei oes, pan methodd, yng nghartref yr henoed Tregerddan, lle bu yn hapus a diolchgar iawn iddynt am eu gofal amdano.

Cafodd angladd parchus iawn dydd Gwener 15ed Ionawr 2016 yng nghapel Rehoboth, Taliesin, dan ofal ei weinidog Y Parchedig Wyn Morris, a roddodd deyrnged hyfryd a manwl o'i fywyd. Cydymdeimlwn yn fawr a Ken, ei frawd a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

GJ

Bu farw tri o frodorion Tal-y-bont yn ddiweddar.

John Meredith Jones (25.11.15)

Ganwyd ym Mraichgarw yn 1922 yn fab i Mr a Mrs Tom Jones, ac yn frawd i Elis, Tegwen ac Enid. Bu'n cadw cysylltiad agos â'r ardal gan fod ei chwaer Tegwen yn byw yng Nghomins Coch.

Eric Williams (03.01.16)

Eric Rhydfach oedd i bawb. Cafodd ei fagu yn Rhydfach, Tal-y-bont gyda'i ddad-cu a'i fam-gu ac roedd yn meddwl y byd ohonynt. Cadwodd gysylltiad agos gyda'i deulu a'i ffrindiau ar hyd y blynyddoedd tra'n byw yn Llanelltyd. Byddai'n ffonio'n aml i gael hanes Tal-y-bont ac yn hiraethu am y pentref a'r brodorion. Eric ail-gododd Clwb Pêl-droed Tal-y-bont pan ddaeth y bechgyn adref ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Megan Elizabeth Jones (15.01.16)

Ganwyd Megan ym Mhenbanc, Tal-y-bont ac fe'i magwyd yn Isybanc, Tal-y-bont. Roedd yn chwaer i Mair a Margaret, sef y diweddar Mrs Margaret Jones, Llysnyr, Tal-y-bont. Roedd yn wraig i Dewi Jones, Pencefen, Penrhyn-coch a buont yn byw yn Aberteifi am flynyddoedd lawer. Roedd Dewi yn fferylllydd yno, cyn symud i Landrindod yn ddiweddar. Cafodd ei chladdu ym mynwent Tal-y-bont gyda'i gŵr a'i merch Nia, a fu farw mewn damwain yn 1972. Cydymdeimlwn gydag Ifor Jones, Llysnyr ar golli ei fodryb.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd mae nifer o bynciau pwysig o fewn yr etholaeth wedi bod yn hawlio sylw. O ran y Gwasanaeth Iechyd, da oedd cael cadarnhad uniongyrchol o enau'r Gweinidog ei fod wedi clustnodi yn derfynol £4.8 miliwn o wariant cyfalaf ar gynlluniau adeiladu newydd yng Ngheredigion eleni. Bydd £3 miliwn o'r cyllid yn dod i Aberteifi. Byddai'n dda gen i petai gwelyau yn cael eu cynnwys yn y cynllun, ond mae'n hen bryd i roi cychwyn ar yr adeilad newydd, a bydd y cyhoeddiad yma yn caniatáu i hynny ddigwydd. Bydd y £1.8 miliwn arall yn dod i brosiect Cylch Caron. Gall y cynllun gofal integredig hwn yn Nhregaron fod yn arloesol, trwy sicrhau cydweithio agos rhwng y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor sir, y trydydd sector, ac eraill.

Cefais gyfarfod hefyd gyda phennaeth newydd BT yng Nghymru, i drafod arafwch y cynnydd o ran argaeledd band llydan cyflym iawn. Mae'n siom fod y cynllun Superfast ond wedi cyrraedd tua 52% o gartrefi yng Ngheredigion hyd yn hyn, a chodais faterion ar ran sawl cymuned – Pontarfynach, Llanfihangel y Creuddyn, Cwm-cou, Llandysul, Llanwnnen a llawer o rai eraill. Mae'r arafwch wedi dod yn sgil yr angen i ddarparu cyswllt gwifrau ffibr yn uniongyrchol i'r eiddo mewn nifer o ardaloedd. Cefais addewid y bydd 11,000 o gartrefi Ceredigion yn derbyn cyswllt yn y modd yma, y bydd yn y diwedd yn darparu gwasanaeth cyflymach a mwy dibynadwy. Yr amcan yw y gwelwn dipyn o gynnydd yn ail hanner eleni a dechrau flwyddyn nesa, gyda dros 90% o'r sir yn derbyn cyswllt. Mae hefyd grantiau band-llydan newydd ar gyfer busnesau, a chroeso i unrhyw fusnes i gysylltu gyda'm swyddfa ar 01970 624 516 i gael gwylbodaeth.

Ar hyn o bryd yn y Cynulliad, mae cryn drafod am y gyllideb. Roedd dipyn o newyddion gwael yn y gyllideb ddrafft – y toriad i brifysgolion, i'r grantiau i gefnogi argraffu, ac i lywodraeth leol. Gobeithio y cewn ddatrasiad sy'n deg i awdurdodau lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae cynghorau fel Ceredigion wedi gorfod ymdopi gyda'r toriadau mwyaf ers sawl blwyddyn bellach, a rhaid rhoi peirianwaith mewn lle sy'n amddiffyn cefn gwlad. Rhaid hefyd ystyried rôl hanfodol ein prifysgolion, a'r rhan bwysig sydd gan y diwydiant cyhoeddi o fewn ein ardal.

Y Gair Olaf

Mae cyflwr y cefnffyrdd gwledig wedi dirywio i'r fath raddau eu bod yn beryglus bellach.

Gelyn mwyaf pob ffordd yw dŵr a rhew, a dyna'r problem - y sianeli wedi cau, cwteri yn llawn a dŵr yn rhedeg lle y myn, mannau pasio'n llithrig a phan ddaw rhew, mi fydd yn beryg bywyd, hyd yn oed os daw'r wagen raeon. O brofiad nid yw'r wagen yma yn dod o amgylch bellach a disgwylir i bobl wledig chwilio eu ffordd ei hun i ddod at y briffordd. Mae'r trigolion yma wedi colli diwrnodau o waith yn y gorffennol oherwydd diffyg graeanu, a phetai damwain neu salwch does dim gobaith gan feddyg, ambiwlans neu injan dân gyrraedd mewn pryd neu o gwbl.

Dyma hanes y cefnffyrdd yn y gaeaf. Mae'r haf a thyfiant y gwanwyn yn creu problem arall, sef methiant i docio'r cloddiau mewn da bryd. Rwyf yn gorfod cwyno'n flynyddol ar ran ymwelwyr bod y ffordd yn gul ac yn beryglus oherwydd y tyfiant, yr ateb bob tro yw y byddant yn dechrau ar y cefnffyrdd ar ôl gorffen ar y priffyrdd. Ni ddeallais erioed fod y gwair yn tyfu'n gynt ar y priffyrdd na'r cefnffyrdd!

Trueni na all y Cyngor Sir wneud ymdrech i ddangos i ymwelwyr cefn gwlad, yr ardal ar ei gorau ac nid ar ei gwaethaf, a thrin y trigolion yn gydradd ac nid yn eilradd fel sydd yn digwydd yn bresennol.

Evan Evans

Ysgol Tal-y-bont

Siaradwyr Cymraeg yr Wythnos

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am gael eu gwobrwyo fel siaradwyr Cymraeg yr wythnos yn ystod mis Ionawr – Emily, Kelsey, Aisha, Zak, Summer, Oisín, Caoimhe, Catrin, Steffan, Elinor, Benji a Rhoswen. Diolch yn fawr i chi am eich ymdrech a daliwch ati.

Lles Disgyblion

Mae lles y plant yn parhau i gael sylw mawr gennym yn yr ysgol. Dros yr wythnosau diwethaf trefnwyd ymweliad gan Pc Alun i drafod pwysigrwydd defnyddio'r we yn gywir a'r peryglon o chwarae gemau anaddas.

Ysgol Iach

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o ddiddordeb yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd eleni. Y gamp eleni i fechgyn a merched hŷn yr ysgol oedd paratoi salad Groegaidd, a hynny mewn awr! Ar ôl cystadlu brwd, yr enillydd eleni oedd Catrin o Flwyddyn 5. Bydd Catrin nawr yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf – pob lwc i ti. Hoffwn ddiolch i Mrs Myfanwy James am y dasg anodd o feirniadu hefyd.

Gala Nofio

Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwell nofio. Mae Cylch Aberystwyth yn cynnal sawl gala nofio yn ystod y mis a gwelwyd llawer o blant Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu'n frwd unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn enwedig i'r plant gyrhaeddodd y gala derfynol. Da iawn chi.

Pêl-rwyd

Roedd hi'n hyfryd i weld tîm o Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu ym mhencampwriaeth pêl-rwyd yr Urdd eleni. Diolch yn fawr i Miss Claire am hyfforddi'r tîm ac i Dafydd ac Ysgol Llangynfelyn am y pyst!

Cyfnod Sylfaen Tal-y-bont

Bu llanast mawr yn ein dosbarth ni yn ystod mis Ionawr wrth i ni fwynhau chwarae gyda llysnafedd, ewyn siafio, sbaeti, mwdd, jeli a swigod yn ystod ein bore blêr. Fel rhan o'n thema 'Baw, annibendod a chymysgeddau' cawsom gyfle i ddefnyddio'n synhwyrau, arbrofi, trafod a chael hwyl yng nghanol ein holl lanast! Rydym hefyd wedi bod yn edrych ar straeon Gwlad y Rwl ac wedi gwirionio gyda'r cymeriadau doniol. Buom yn ffodus iawn i gael ymweld â'r Lolfa i weld sut roedd y llyfrau'n cael eu hargraffu. Yn dilyn yr ymweliad, mae'r plant wedi cyffroi'n lân ac yn brysur yn ysgrifennu eu llyfrau'u hunain. Diolch yn fawr iawn i'r Lolfa am y croeso.

Rygbi

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael hyfforddiant sgiliau rygbi gan Llŷr Thomas Swyddog Datblygu Rygbi Ysgol Penweddig. Mae'r sesiynau wedi bod yn gyffrous ac egniol a phwy a wŷr efallai mai Ysgol Tal-y-bont fydd yn cynhyrchu'r Jamie Roberts nesaf.

Santes Dwynwen

Cafwyd cyfnod prysur iawn i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen eleni eto. Yn ogystal â chynnal gweithgareddau cyffrous yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen, cynhaliwyd gweithgareddau creu cardiau gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol yng Nghlwb yr Urdd hefyd.

Gwersyll Yr Urdd, Llangrannog

Yn ystod mis Ionawr aeth criw o Flynyddoedd 3 a 4 i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Roedd yn ddeuddydd cyffrous iawn ac fe lwyddon ni wneud llawer iawn o weithgareddau cyffrous ac anturus er gwaethaf y tywydd oer. Roedd y plant wrth eu boddau'n marchogaeth, yn ymgodymu gyda'r rhaffau uchel a'r wal ddringo, yn creu gwylltgrefftau, yn gwiwgartio ac yn gwneud "back flips" ar y trampolins. Roedd hi'n ddoniol i weld pawb yn gwisgo harnes a helmed wrth wneud y gweithgareddau. Er gwaethaf yr oerfel roedd hi'n braf i gael y cyfle o fod i ffwrdd o adref. Roedd y bwyd yn flasus ac roedd digon i bawb gan gynnwys yr athrawon! Cyn mynd i'r gwely aeth pawb i'r neuadd i gael disgo a wedyn cyn mynd i'r gwely aethon ni i weld y ffilm Madagascar – cyfle da i ddechrau bwyta losin CYN y wledd ganol nos! Diolch yn fawr iawn i staff yr ysgol am ofalu am y plant ac i staff Gwersyll Llangrannog am y croeso cynnes.

Panto

Llongyfarchiadau mawr i Miriam ac Elinor am gael eu dewis i'r panto blynyddol yng Nghanolfan y Celfyddydau eleni ac am eu perfformiadau graenus.

Gweithgareddau Llesol

Mae gweithgareddau LLESOL wedi parhau yn ystod y mis gyda BINGO llywyddiannus yn y Neuadd Goffa. Diolch yn fawr iawn i bawb am fynychu, i Anwen Curran am drefnu'r noson ac i'r MC dawnus Gerwyn Jones am lywio'r noson mor hwylus. Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr i gyd. Y weithgaredd nesaf fydd cylchedau cadw'n heini ar Chwefror 25.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Vicky Joseph a'r teulu ar enedigaeth Elis James ar ddechrau mis Ionawr. Croeso i Lois Reynolds atom hefyd i gymryd lle Vicky dros gyfnod mamolaeth.

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi
Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys:
cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy.
Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:
Dysgu Bro CEREDIGION Community Learning
01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Cyfnod Sylfaen Tal-y-bont - Diwrnod Blêr



Pêl-rwyd



Santes Dwynwen



Panto

Ysgol Iach

1pm Sadwrn 5/03/16 Clocy Dre → Llys y Brenin

Parêd Gŵyl Dewi

ABERYSTWYTH 2016

Pibydd – Gwilym Bowen Rhys
Corau Aberystwyth
Band Arian Aberystwyth
Band Drwm Cambria
The Bird and the Beards
Mr Phormula
Carwyn Tywyn

'Tywysydd' – Mary Lloyd Jones

27/2 - 6/3/2016
+ gigs, lansiô llyfrau,
gweithgareddau i blant a'r
arddegau, gwasanaeth.

Parade, gigs, book launches,
events in celebration of
St David and the Welsh
language

www.gwyl Dewi Aberystwyth.cymru
@GwylDewiAber ParedGwylDewiAberystwyth

Cambrian News

yBlac

TALYBONT

NI NÔL...AC MAE GANDDOM NI FWYDLLEN NEWYDD SBÔN!
EWCH I'N GWEFAN I'W GWELD, AC AM EIN CYNIGION
ARBENNING - GAN GYNNWYS NOSON STÊC BOB NOS FERCHER

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

argraffu da am bris da

yLolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Cywaith Penillion i'r Leri

Ers y tro diwethaf i mi ysgrifennu cafwyd sesiwn cyfansoddi penillion ar y cyd yn y Llew Gwyn, a chyfansoddwyd ambell i bennill bach gloyw. Er enghraifft:

Anodd plethu dŵr yr afon
Dan y bont lle treigla'n gyson,
Ond anoddach fyth na hynny
Yw gwrthod llanc sy'n ffyddlon garu.

Yn ystod y cyngerdd ym mis Tachwedd rhoddwyd cyfle i'r gynulleidfa gyfrannu penillion i Siwan a finnau ganu. Daeth rhai arbennig i law, penillion o athrylith hyd yn oed:

Ar lan y môr ma' coesau noethion,
Ar lan y môr ma' boliau cochion,
Ar lan y môr ma' criw y garej
Ac ambell un yn crasu sosej.



Y côr-ar-fyr-rybudd

Mae'n codi deigrin, yn tydi?
Ond gyda'r difyr daeth y dwys hefyd, fel y canlynol:

Ar lan y môr mae diwedd dychryn,
Ar lan y môr mae dwylo plentyn,
Ar lan y môr a rhown ni loches
Rhag gwynt a glaw yn gartref cynnes?

Mae nifer o gyfraniadau eraill wedi cyrraedd ers hynny. Mae David Jones, Bwlchdyddwyallt wedi anwybyddu canllawiau'r cynllun unwaith eto drwy beidio â chyfeirio at y Leri, ond gan ei fod wedi cynnig penillion fel y canlynol, mae'n anodd peidio â'u cynnwys:

Yn y brynau uwch y pentref
Mae eu holion yn parhau,
Gwellt y bwla sydd yn sibwrdd
Ac yn sôn am oes ar drai.

Bywyd caled, bywyd syml -
Llecha'n fud yn noethni'r cwm,
Eu hystâd 'fewn tafliad carreg -
Crafu bod ar foelydd llwm.

Lle bu aelwyd gwelaf adfail,
Muriau moel sy'n dwyn i go'
Y brawdgarwch ar y brynau;
Hanes teulu, hanes bro.

Dros y gaeaf, yn ara' bach, mae'r gwaith recordio wedi bod yn dod yn ei flaen. Mae wedi bod yn dipyn o her glanio ar arddull gall i'r albwm. Oherwydd hwylustod y dechnoleg recordio newydd, mae'n demtasiwn cyson i arbrofi gyda synau cyfoes, electronig, yn enwedig gan mai dyna ydi'r ffasiwn 'werinol' heddiw. Ond, ar ôl trafod gyda Siwan, sy'n chwarae bwylllog a chymesur, penderfynwyd parhau gyda'r offerynnau acwstig.

Wedi hynny, euthum ati i hel cantorion at y côr-ar-fyr-rybudd i recordio cwpwl o draciau, menter a lwyddodd dim ond drwy gymorth Fal Jenkins, sydd wedi bod ddigon caredig i gyfrannu darnau piano a rhoi ychydig o drefn ar y lleisiau hefyd. Mawr yw'r diolch iddi, a diolch o galon hefyd am frwdfrydedd ac amynedd y criw a ddaeth i recordio'r darnau yn y capel, a thua hanner ohonom yn llawn anwyd. Ond persain oedd y canu! Cewch glywed pan fydd yr albwm yn barod i'w lawr lwytho ar Mawrth 1af oddi ar wefan gwilmor.com.

Gwilym Morus

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd mis Ionawr.

Ffens Maes-y-Deri

Adroddodd y Cyngorydd Eric Roberts nad oedd ffens o hyd rhwng y giât â'r goeden dderw. Cytunwyd i'r Clerc fynd yn ôl at Tai Ceredigion i adrodd nad oedd y gwaith wedi'i gwblhau.

Seremoni Goleuo'r Goeden Nadolig

Estynnodd y Cyngorwyr air o ddiolch i'r Ysgol, Falyri Jenkins, Ieuan Morgan, ac i Alun Davies y trydanwr, am eu cyfraniad at y seremoni goleuo. Estynnodd y Cadeirydd, David Evans, gair o ddiolch i bawb a fu'n helpu gyda'r lluniaueth, yn arbennig i'r Cyngorydd Rhian Evans â'r Clerc, ag i Eirlys Jones am ei arweiniad.

Sedd Wag ar Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddodd y Clerc nad oedd unrhyw etholwr wedi enwebi ei hun ar gyfer y sedd wag ar y Cyngor Cymuned cyn dyddiad terfyn y Cyngor Sir ym mis Rhagfyr, 2015. Gan hyn, mae hawl gan y Cyngor Cymuned gyfethol aelod i'r sedd wag. Derbyniwyd hysbys gan y Cyngor Sir i'w rhoi ar hysbysfwrdd y Neuadd Goffa. Cytunwyd i feddwl am aelodau o'r gymuned fyddai â diddordeb bod yn aelod o'r Cyngor Cymuned.

Baw Cŵn

Adroddodd y Clerc fod Ieuan Morgan wedi nodi fod problem o faw cŵn wedi bod o flaen y Neuadd Goffa. Nododd sawl Cyngorydd eu bod wedi clywed fod broblem o faw cŵn yn ystod y deufis diwethaf. Cytunwyd i'r Clerc godi'r mater gyda'r warden cŵn. Gellir adrodd am unrhyw broblem o faw cŵn yn uniongyrchol i'r adran Iechyd Amgylcheddol y Cyngor Sir trwy alw 01545 572105 neu e-bostio envhealth@ceredigion.gov.uk.

Cymorthdaliadau 2015/16

Derbyniwyd argymhellion yr Is-bwyllgor Ariannol i ddosbarthu cyfanswm o £3,800 mewn grantiau rhwng y cymdeithasau a'r clybiau lleol canlynol: Y Neuadd Goffa; Cylch Meithrin; Cymdeithas Maes Chwarae'r Odyn Galch; Cymdeithas Papur Pawb; Clwb Pêl-droed; Clwb Pysgota; Sefydliad y Merched; Clwb Pêl-droed Ieuenctid; Clwb Ffermwyr Ieuaic; a Ffrindiau Cartref Tregerddan. Hefyd, cytunwyd i rannu £240 rhwng Ambiwllans Awyr Cymru a Bobath.

Pennaeth Marchnata Newydd i'r Lolfa

Mae Fflur Arwel newydd gymryd yr awenau fel Pennaeth Marchnata Gwasg Y Lolfa. Gobaith Fflur, sy'n wreiddiol o Dinas, ger Caernarfon, yw cynyddu gwerthiant llyfrau'r Lolfa a chael mwy o sylw i lyfrau'r wasg yn y cyfryngau ac ar-lein. Mae Fflur newydd raddio gyda Gradd MA o Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth, lle astudiodd Wleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru. Fel rhan o'i gradd ysgrifennodd draethawd hir ar gymhellion gwleidyddol gwasg Y Lolfa.

Dywedodd Fflur, "Mae'n bleser mawr gen i ymuno â thîm arbennig gwasg Y Lolfa. Mae hi'n gyfnod eithriadol o heriol i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Rwyf yn edrych ymlaen i barhau i hyrwyddo a hybu llyfrau beiddgar a blaengar gan barhau gyda chenhadaeth a gwledigaeth Y Lolfa er ei sefydlu o gynhyrchu a chefnogi deunydd gwreiddiol, cyffrous a heriol Cymraeg a Chymreig."





C.F.F.I. Tal-y-bont yn datblu ei cinio blynyddol yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth

C.F.F.I. Tal-y-bont

Blwyddyn newydd dda i chi gyd gan y Ffermwyr Ifanc! Bu Ionawr yn fis prysur iawn i ni yn y clwb wrth ddechrau paratoi ar gyfer y rali, a fydd yn cael ei chynnal ar Fferm Berthlwyd ar Ddydd Sadwrn cyntaf mis Mehefin (04/06/16).

Cystadleuaeth gyntaf y flwyddyn oedd cwis y sir, lle aeth tîm o 7 i gystadlu ac i ddangos eu gwybodaeth gyffredinol. Yn anffodus doedd yr aelodau ddim mor wybodus ac roeddent yn meddwl ond cafwyd llawer o hwyl wrth geisio meddwl am yr atebion.

Efallai eich bod wedi clywed am allu Alaw Aur (neu Alaw Bingo o hyn ymlaen) i alw rhifau bingo ac i gadw trefn ar y dorf wrth iddynt ddabio'u rhifau mewn gobaith o gael galw 'house'. Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr i bawb a ddaeth i chwarae ac i'r rhai a baratodd y lluniaueth. Cafwyd noson hwylus gyda llawer o chwerthin a mwynhad a llwyddwyd i godi tri chant a hanner o bunnoedd! GWYCH!

Cawsom wledd o adloniant ar ddiwedd y mis wrth i Gwmni Garnfach a Theatr Gydweithredol Troedryhiw ddod â'u panto diweddaraf i'r Neuadd Goffa. Gwelwyd Lav y fuch yn mynd ar goll wrth i Richard Head ddilyn ei gynllun diweddaraf i wneud ei ffortiwn, PIGOGITIS! Lwcus iawn oedd Wil Cwm Canol Ganol, Gary Courier a Maze y Tarw bod Dwrgi ap Dwrgi ar gael i achub y dydd! Diolch yn fawr i bwyllgor y Neuadd, yn enwedig Arthur a Rebecca, Mur Mawr, Tal-y-bont, am drefnu'r noson.

Ry'n ni ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth y Ddrama,



Ile byddwn yn cyflwyno 'Y Cinio' yn theatr Felinfach. Bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnos 15-19 o Chwefror a byddwn ni'n perfformio ar y Nos Fercher (17/02/16). Mae rhai tocynnau yn dal i fod ar gael gan y clwb, felly os hoffech weld Llangwryfon, Llanddewi-Brefi a Thal-y-bont yn cystadlu cysylltwch â:

Steffan Rhys Nutting (Tŷ Hen Henlllys) – 07949 377877

Rhydian Evans (Neuadd Fawr) - 07709 851213.

Bydd y ddrama yn cael ei pherfformio yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont ddechrau mis Mawrth. Gwylwch allan am fwy o fanylion.

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

CHWARAEON



Teirw Tal-y-bont

Roedd hi'n ddechrau da i'r tymor i dîm Teirw Tal-y-bont (dan 8 oed) gan ennill yn nhwrnament Gary Pugh. Mae'r tîm wedi ennill pob gêm y tymor hwn yng Nghynghrair

Ieuencid Aberystwyth, tipyn o gamp. Diolch i Paul Kelly, Tal-y-bont a Gareth Norris, Tal-y-bont y rheolwyr a phob lwc i'r tîm yn ystod y tymor.

Cit Newydd

Dyma ddau dîm dan 10 oed y dalgylch, sef Tal-y-bont a Tarannau Tal-y-bont yn eu cit newydd a noddwyd gan Owain Jones ac Anthony Southgate. Cafwyd dechrau da i'r tymor yn arbennig yn nhwrnament Gary Pugh. Mae'r tîmau wedi bod yn llwyddiannus yng Nghynghrair Ieuencid Aberystwyth, gyda chwarae dawnus gan y ddau dîm. Diolch i'r rheolwyr Mark Milverton a Chris Walton, Tre'r-ddôl am eu gwaith caled. Da iawn chi bois a phob lwc i'r tîmau am weddill y tymor.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (golygydd@papurpawb.com) neu ffoniwch ef ar 832560.



Tal-y-bont dan 10



Tarannau Tal-y-bont dan 10

Noson a Milgi Rasys Ceffylau

Nos Sadwrn – 12 Mawrth – 7.30pm

Llew Gwyn, Tal-y-bont



Maes Chwarae Cae'r Olyn Galch